

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 26 Tachwedd 2021** am 9.00am yn Ystafell B103, Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

**Presennol**

Jim Barclay  
 Paul Barlow  
 Yr Athro Martin Chambers  
 Colin Heron  
 Yr Athro Maria Hinfelaar  
 Claire Homard  
 Yr Athro Sandra Jowett  
 Celia Jenkins  
 Sally Lambah  
 Diane McCarthy  
 Paul McGrady  
 Judy Owen  
 Maxine Penlington (Cadeirydd)  
 Amy Rowley  
 Askar Sheibani  
 David Sprake  
 Richard Thomas  
 Maureen Wain

**Swyddogion:**

Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd*)  
 David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*)  
 Dr Aulay Mackenzie (*PVC Partnerships*)  
 Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)  
 Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-Ganghellor*)  
 Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)  
 James Dawson (*Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr*) [*Eitemau 21.47 a 21.48 yn unig*]

**Ymddiheuriadau:** Lauren Hole  
 David Subacchi

<b>21.25</b>	<b>Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol</b>	
	<b>Derbyniwyd:</b> Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2020/21	
	<b>Penderfynwyd:</b> CYMERADWYO'R Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2020/21 i'w gyhoeddi.	
<b>21.26</b>	<b>Croeso ac ymddiheuriadau</b>	
	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.	
<b>21.27</b>	<b>Datgan buddiannau</b>	
	Datganodd Mr Paul McGrady fudd potensial yn y diweddariad Campws 25 o ran gwaredu safle Ffordd y Deon oherwydd ei statws cyflogedig gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn. Gan nad oedd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch y gwaredu nid oedd yn angenrheidiol gofyn i Mr McGrady neilltuo o'r cyfarfod.	

<b>21.28</b>	<b>Aelodaeth</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Cyflwynwyd adroddiad ar y broses i chwilio am Gadeirydd newydd y Bwrdd a'r amserlen gynefino arfaethedig a fyddai'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> CYMERADWYO penodi Dr Leigh Griffin i'r Bwrdd Llywodraethu yn weithredol o 1 Ebrill 2022 am gyfnod o bedair blynedd yn y lle cyntaf.</p> <p>CYMERADWYO penodi Dr Leigh Griffin yn Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu yn weithredol o 1 Ebrill 2022 am gyfnod o bedair blynedd yn y lle cyntaf ac yn ddarostyngedig i adolygiad perfformiad blynyddol.</p>	
<b>21.29</b>	<b>Cofnodion</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Awgrymwyd y dylid aralleirio cofnod 21.09 er diben eglurder i nodi "bod amhariad llai yn awr o ran Neuadd Corbishley, Llaneurgain. Roedd hyn yn dilyn prisiad annibynnol a oedd yn ystyried defnyddio'r llawr gwaelod at ddibenion eraill er gwaethaf cau'r neuadd breswyl."</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> Cytuno bod y cofnodion yn gofnodion gwir a chywir y cyfarfod, yn ddarostyngedig i gywiro mân wallau teipio a'r diwygiad i gofnod 21.09 fel y nodwyd.</p>	
<b>21.30</b>	<b>Materion yn codi</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.31</b>	<b>Adroddiad yr Is-Ganghellor</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Diweddariad yr Is-Ganghellor. (ii) Nodiadau'r Diwrnod Strategaeth a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Darparodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad ar y broses ymgynghori, yr amserlen a'r pryderon sy'n weddill o ran Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Bu cyfarfod Prifysgolion Cymru gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a grŵp trawsbleidiol o aelodau Senedd a rhanddeiliaid eraill yn gadarnhaol ac roedd y Gweinidog wedi gwrando'n astud ar bryderon y prifysgolion. Ymhlith y pryderon sy'n weddill un allweddol i sefydliadau ôl-92 yw pŵer Llywodraeth Cymru i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch yn erbyn eu hewyllys. Bydd yr Is-Ganghellor a Chadeirydd y Bwrdd yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar 2 Rhagfyr. Byddai ymateb y Brifysgol i'r ymgynghoriad ynghylch Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn cael ei ddsbarthu i'r aelodau, er gwybodaeth.</p> <p><i>[Nodyn yr ysgrifennydd: dosbarthwyd yr ymateb ar 2 Rhagfyr]</i></p> <p>Tynnwyd sylw at y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor i fynd i'r afael â heriau ariannol a'u dymuniad i gyflawni sefyllfa alldro</p>	<b>MH</b>

	<p>dim net erbyn diwedd 2021/22 cyn trafodaethau pellach yn ddiweddarach ar yr agenda.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad yr Is-Ganghellor.</p>	
<b>21.32</b>	<b>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr Tachwedd 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Roedd y Bwrdd yn dymuno cofnodi eu dioch a'u dymuniadau gorau i Brif Weithredwr yr Undeb Myfyrwyr, a fyddai'n gadael ym mis Ionawr 2022.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.33</b>	<b>Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Adroddiad Ariannol a Datganiadau Ariannol drafft ar gyfer Grŵp y Brifysgol 2020/21.</li> <li>(ii) Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yr Is-gwmnïau 2020/21.</li> <li>(iii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2020/21.</li> <li>(iv) Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2020/21.</li> </ul> <p><b>Adroddwyd:</b></p> <p><b>21.33.01 Grŵp y Brifysgol</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid adroddiad ariannol a datganiadau ariannol archwiliedig 2020/21 a thynnodd sylw at y nodweddion allweddol o ran trosiant, gwarged gweithredol a net a'r rheswm am y gwahaniaeth rhwng yr alldro arfaethedig a adroddwyd ym mis Hydref a'r alldro terfynol.</p> <p>Yn dilyn adolygu'r adroddiad gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid cynhwyswyd esboniad ychwanegol yn yr Adolygiad Rheolaeth Ariannol i egluro effaith gadarnhaol cyllid gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru (CCAUC) yn ystod y flwyddyn ar gyfanswm incwm y Brifysgol. Roedd cyfran arwyddocaol o'r cyllid a dderbyniwyd gan y Brifysgol wedi cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i fyfyrwyr neu brifysgolion eraill sy'n bartneriaid mewn Prosiect Dysgu Digidol. Tra bo'r cyllid wedi cynyddu trosiant y Brifysgol ar sail un tro'n unig roedd wedi'i wrthosod yn bennaf gan wariant cysylltiedig, er mai dyma'n rhannol y rheswm y tu ôl i'r cynnydd yn y gwarged.</p> <p>Mae'r Archwilwyr wedi darparu barn archwilio diamod ac ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu rheoli.</p> <p>Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol yn hirach nag yn y blynyddoedd blaenorol, ar ôl cyflwyno'r elfennau adrodd ychwanegol a oedd yn ofynnol o ganlyniad i Adolygiad Camm.</p> <p><b>21.33.02 Is-gwmnïau</b> Cyflwynwyd sefyllfa alldro pob is-gwmni, gan nodi bod GIL wedi gwneud colled yn unol â'r rhagfynegiadau, yn bennaf oherwydd effaith Covid. Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru wedi gwneud colled bychan yn dilyn llwyddo i sicrhau grantiau allanol i liniaru effaith negyddol Covid, ac roedd Glyndŵr Services Ltd wedi gwneud gwarged bychan a fyddai'n cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Brifysgol trwy rhodd cymorth.</p>	

	<p>Roedd y Brifysgol wedi cadarnhau ei gymorth parhaus i'w is-gwmnïau i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu ar sail busnes gweithredol.</p> <p><b>21.33.03 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2020/21</b></p> <p>Gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw ar y sefyllfa alldro gref a chyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at farn yr Archwilwyr Allanol fel y nodwyd yn eu llythyr rheoli i'r Pwyllgor. Yn ychwanegol, roedd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol wedi cefnogi'r datganiadau yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol o ran digonolrwydd y fframwaith rheoli mewnol a chyfrifoldebau'r Bwrdd o ran rheoli risgiau, llywodraethu a rheolaeth fewnol a gweithredu yn effeithiol, effeithlon ac economaidd.</p> <p>Gwnaeth Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid argymhell cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol a chofnodi eu diolch i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Tîm Cyllid.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Grŵp y Brifysgol 2020/21.</p> <p>CYTUNO y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth i'r Archwilwyr Allanol.</p> <p>NODI Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2020/21.</p> <p>NODI'R Adroddiad Blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol 2020/21.</p> <p>NODI'R Adroddiadau Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer is-gwmnïau'r Brifysgol.</p>	
<b>21.34</b>	<b>Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Adroddiad ar y dystiolaeth isorweddol i ganiatáu cwblhau'r Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol gan y Bwrdd.</li> <li>(ii) Cyngor ynghylch yr ystyriaethau ar gyfer busnes gweithredol.</li> <li>(iii) Diweddariad ar ailgylido benthyciad AIB.</li> </ul> <p>(i) Y papur rhagfynegiad arian parod a rannwyd gyda KPMG i gefnogi'r datganiad busnes gweithredol bod y Brifysgol yn medru gweithredu dan amodau gwaith arferol am y dyfodol rhagweladwy.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Bwrdd am gefndir cyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd.</p> <p>Cynhwyswyd y rhagfynegiad arian parod dwy flynedd a ddarparwyd i'r Archwilwyr i gefnogi'r datganiadau busnes gweithredol yn y papurau ac roeddynt yn cynnwys ystod o senarios potensial yn cynnwys senario sefyllfa waethaf o ostyngiad 20% yn yr incwm. Roedd hyn wedi bodloni'r Archwilwyr o ran busnes gweithredol a dangos fforddiadwyedd ad-dalu benthyciad AIB yn Awst 2022 os yw'n ofynnol.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> CYTUNO bod y Brifysgol yn parhau'n gynaliadwy am y dyfodol rhagweladwy a CHYMERADWYO dirprwyo bod y Cadeirydd yn lofnodi'r datganiad Sicrwydd Cynaliadwyedd ar ran y Bwrdd i'w gyflwyno i CCAUC.</p>	
<b>21.35</b>	<b>Ailgylido Benthyciad</b>	

	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <p>(i) Adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gymeradwyo diwygio'r Cytundeb Cyfleuster Benthyciad AIB yn egluro'r diffiniad cyfradd sylfaenol.</p> <p>(ii) Cyngor gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ynghylch y debentur morgais lle roedd yn ofynnol defnyddio campws Plas Coch yn gyffredinol fel sicrhad ar gyfer y benthyciad cyfredol gydag AIB.</p> <p><b>Adroddwyd:</b></p> <p>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y cefndir a'r cyd-destun i'r materion a nodwyd gan yr adroddiadau, a'i gyngor i'r Bwrdd. Nodwyd y byddai angen cael caniatâd ysgrifenedig CCAUC ynghylch y debentur morgais yn gysylltiedig â benthyciad AIB yn unol â'r Telerau ac Amodau Cyllido. Fodd bynnag, cynghorwyd CCAUC am y sefyllfa eisoes ac roedd wedi dynodi y byddai'n cymeradwyo, yn ddarostyngedig i dderbyn manylion y debentur.</p> <p>Bu'r aelodau'n trafod manteision ac anfanteision y sicrhad, gan nodi nad oedd unrhyw gyfyngiadau wedi'u dynodi o ran prosiectau Campws 2025 a gymeradwywyd eisoes. Ni fwriedir cynnal unrhyw gynlluniau cyfalaf mawr rhwng nawr a 22 Awst 2022.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b></p> <p>CADARNHAU'R cofnod yn y weithred diwygio ac ailddatgan y Cytundeb Cyfleuster ar 29 Hydref 2021 a NODI'R eglurhad ynghylch y diffiniad cyfradd sylfaenol gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd dan weithredoedd y Cadeirydd.</p> <p>DERBYN a NODI'R cyngor ysgrifenedig, wedi'i gyfeirio at Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Brifysgol ar 21 Awst 2018 ac 1 Hydref 2021, gyda rhagor o gyngor ar 26 Tachwedd 2021, yn unol ag Adran 124 Deddf Elusennau 2011 o ran ymrwmo i forgais gyda'r Benthycwr at ddiben rhoi sicrhad i'r Benthycwr yn unol â thelerau'r Cytundeb Cyfleuster dros eiddo Plas Coch ym Mhrifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam LL11 2AW.</p> <p>CYMERADWYO ffurf y debentur morgais i'w lofnodi gan y Brifysgol, yn ddarostyngedig i dderbyn cymeradwyaeth CCAUC.</p> <p>NODI ymhellach fod cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 1 Hydref wedi cymeradwyo a lofnodi Penderfyniad Ymddiriedolwr i weithredu'r pŵer a roir gan Adran 333 Deddf Elusennau 2011 lle gellir awdurdodi unrhyw ddau o Ymddiriedolwyr y Brifysgol (rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd y Bwrdd) o dro i dro i weithredu unrhyw ddogfen mae Ymddiriedolwyr y Brifysgol yn rhan ohono gyda'r bwriad y bydd unrhyw ddogfen a weithredir dan yr awdurdod hwn yn cael yr un effaith â phe bai wedi'i weithredu gan holl Ymddiriedolwyr y Brifysgol a/neu ar ran y Brifysgol ei hun.</p>	
21.36	<p><b>Adroddiad Rheolaeth Ariannol</b></p>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <p>Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Hydref 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b></p> <p>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at effaith ariannol y niferoedd llai na'r targed yn y gyllideb o ran myfyrwyr israddedig amser llawn a myfyrwyr yn dychwelyd yn 2021/22. Roedd recriwtio myfyrwyr ar gyfer Addysg Drawswladol, Prifysgol Glyndŵr Wreccsam ar-lein a myfyrwyr rhyngwladol wedi perfformio'n well na tharged y gyllideb. Fodd bynnag, ni fyddai'r</p>	

	<p>Brifysgol yn cyrraedd yr alldro cyllideb a ragfynegydd yn wreiddiol heb gamau lliniaru.</p> <p>Roedd ystod o gamau lliniaru yn cael eu cyflwyno er mwyn cyrraedd sefyllfa alldro briodol yn cynnwys: mentrau ychwanegol i sicrhau cyflawni dyraniad credyd rhan amser CCAUC yn llawn, adolygu'r lefelau staffio cyfredol yn unol â'r adolygiad portffolio, gohirio amrywiol weithgareddau nad ydynt yn weithgareddau blaenoriaeth ac adolygu targedau incwm. Roedd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn bwriadu adnabod arbedion ychwanegol a byddai angen asesu effaith y sefyllfa ar flynyddoedd y dyfodol tra'n parhau i fuddsoddi mewn meysydd twf fel y rhaglenni lechyd Cynghreiriol dan y cytundeb gydag Addysg a Gwella lechyd Cymru a Chyfathrebu, Derbyniadau, Marchnata a Recriwtio.</p> <p>Nodwyd, o ran cyflawni'r credydau rhan amser, roedd cynllun gweithredu'n bodoli a fyddai'n cael ei adolygu a rhoi adnoddau priodol iddo, gyda'r adrannau Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, Menter a Thechnoleg Gwybodaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar gyflawni'r seilwaith. Roedd nifer o fentrau newydd yn yr arfaeth ar gyfer cyflawni credydau rhan amser.</p> <p>Bu'r aelodau'n trafod lefel y gwarged, gan nodi bod nifer o ffactorau yr oedd angen eu hystyried megis y risgiau a'r cyfleoedd, perfformiad yr is-gwmnïau, meysydd buddsoddi ac effaith lleihau buddsoddi mewn rhai meysydd ar flynyddoedd y dyfodol. Nododd yr aelodau bod y Tîm Gweithredol yn cynnal adolygiad manwl o incwm a gwariant a gofynnwyd am sicrhau y bydd yr adolygiad yn tynnu sylw at fentrau newydd, y meysydd buddsoddi i gefnogi twf yn y dyfodol ac effaith camau gweithredu lliniaru ar flynyddoedd y dyfodol.</p> <p>Byddai'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn cyfarfod gynted ag y bo modd ym mis Ionawr i adolygu'r alldro diwygiedig a ragfynegir. Roedd yr aelodau'n cefnogi cael sefyllfa o ragfynegi cyllideb gytbwys neu gyllideb ddiffyg.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
21.37	<b>Ansawdd a Safonau</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <p>(i) Nodiadau ac adroddiad gan y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau.</p> <p>(ii) Sicrhau Ansawdd Prentisiaethau Gradd: Cynllun Gweithredu Adolygu Datblygiad.</p> <p><b>Adroddwyd:</b></p> <p>Cyfeiriwyd yr aelodau at adroddiadau gan y Bwrdd Academaidd yn ddiweddarach ar yr agenda, a oedd yn cynnwys nifer o ddogfennau i'w hystyried wrth ddod i gasgliad ar yr atebion i'r cwestiynau sicrwydd, a adolygwyd gan y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau ym mis Hydref.</p> <p>Cyflwynodd Cadeirydd Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau'r Bwrdd yr adroddiad a thynnu sylw at y broses adolygu a ddefnyddiwyd gan y Panel, gan nodi'r cwestiwn newydd ychwanegol ar gyfer eleni; a'r modd cadarnhaol yr oedd swyddogion wedi ymateb i'r argymhellion gwella newydd yn deillio o Adolygiad Datblygu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Byddai cynrychiolwyr yr Asiantaeth yn ymweld eto ar 9 a 10 Rhagfyr a byddai'r Bwrdd yn cael diweddiad ynghylch y canlyniad wedi hynny.</p> <p>Roedd y Panel wedi myfyrio ar a oedd angen iddo barhau i fodoli yn y dyfodol a daeth i'r casgliad ei fod yn fecanwaith defnyddiol ac y dylai barhau.</p>	CT

	<p>Daeth y Panel i'r casgliad bod tystiolaeth briodol i alluogi'r Bwrdd i gadarnhau'r chwech datganiad sicrwydd ansawdd a safonau i CCAUC ar gyfer 2020/21.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad a'r dogfennau cysylltiedig.</p> <p>NODI'R adroddiadau a ddarparwyd gan y Bwrdd Academaidd fel rhan o'r sail tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd.</p> <p>CYMERADWYO cadarnhau'r chwech datganiad sicrwydd ansawdd a safonau i CCAUC ym mis Rhagfyr 2021 ac i Gadeirydd y Bwrdd lofnodi'r ddogfen sicrwydd.</p>	
<b>21.38</b>	<b>Campws 2025</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Diweddariad Campws 2025. (ii) Adroddiad blynyddol ar berfformiad Ystadau 2020/21.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad a diweddarodd yr aelodau am y datblygiadau o ran gwaredu safle Ffordd y Deon. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion gorau a therfynol gan y tri chynigydd uchaf oedd 1 Rhagfyr. CYTUNWYD y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu cyn y Nadolig i ystyried Adroddiad Elusennau o ran gwaredu'r safle.</p> <p>Diweddarwyd yr aelodau am y dulliau sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r amod cynllunio sy'n bodoli ynghylch cyffordd Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI diweddariad Campws 2025.</p> <p>NODI'R adroddiad blynyddol ar berfformiad Ystadau.</p>	<b>VB</b>
<b>21.39</b>	<b>Adroddiad y Cadeirydd</b>	
	<p><b>Adroddwyd:</b> Hysbysodd y Cadeirydd am ddigwyddiadau y bu'n rhan ohonynt ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.</p> <p>Roedd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru wedi cyfarfod ar 8 Hydref yn Abertawe. Ffurfiwyd gweithgor ar y cyd rhwng Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru, y mae'r Cadeirydd yn aelod ohono, i ymateb i'r ymgynghori ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Byddai'r Is-Ganghellor a'r Cadeirydd yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 2 Rhagfyr ynghylch y Bil.</p> <p>Mae'r Tasglu Arweiniad Addysg Uwch wedi'i ailsefydlu yn awr ac roedd yr unig ganllawiau newydd hyd yma yn ymwneud â'r angen i wella cyfathrebu gyda myfyrwyr o ran profion Covid.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.40</b>	<b>Adroddiad y Bwrdd Academaidd</b>	

	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2021.</li> <li>(ii) Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2020/21.</li> <li>(iii) Y Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr.</li> <li>(iv) Y Weithdrefan Addaswydd i Ymarfer.</li> <li>(v) Y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.</li> <li>(vi) Adroddiad Bylchau Cyrhaeddiad Canlyniadau Gradd 2019/20.</li> <li>(vii) Y Strategaeth Effaith Ymchwil.</li> <li>(viii) Adroddiad Trosolwg Safonau blynyddol 2020/21.</li> <li>(ix) Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Gwella Ansawdd (Mehefin 2021).</li> <li>(x) Cofrestr ac adroddiad statws Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio Hydref 2021.</li> <li>(xi) Diweddariad metrics terfynol y Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu Myfyrwyr 2020/21</li> <li>(xii) Y Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu Myfyrwyr 2020-2025 a chynllun gweithredu 2021/22.</li> <li>(xiii) Adroddiad trosolwg monitro blynyddol 2019/20.</li> <li>(xiv) Adroddiad trosolwg Arholwyr Allanol 2020/21.</li> <li>(xv) Adroddiad cwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd 2020/21.</li> <li>(xvi) Adroddiad trosolwg Dilysu Rhaglenni 2020/21.</li> <li>(xvii) Canlyniadau Gradd 2020/21.</li> <li>(xviii) Adroddiad Blynyddol ar ymddygiad myfyrwyr 2020/21.</li> </ul> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw at y dogfennau cefnogi y gofynnwyd i'r aelodau eu hystyried fel rhan o'r adroddiad gan y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau.</p> <p>Roedd yr Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil yn nodi na hysbyswyd am unrhyw achosion o gamymddygiad ymchwil yn 2020/21 ac mae gan y Brifysgol fecanweithiau yn eu lle i gefnogi myfyrwyr a staff ymchwil. Roedd mân ddiwygiadau i'r gweithdrefnau myfyrwyr.</p> <p>Croesawodd yr aelodau gael gweld y Strategaeth Effaith Ymchwil.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad a'r cofnodion.</p> <p>NODI'R Strategaeth Effaith Ymchwil.</p> <p>NODI'R adroddiadau'n ymwneud ag ansawdd a safonau.</p> <p>CADARNHAU'R mân ddiwygiadau i'r Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr, y Weithdrefn Addaswydd i Ymarfer a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.</p> <p>CADARNHAU'R Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2020-21.</p>	
21.41	<b>Adroddiad Risgiau Corfforaethol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Crynodeb Risgiau Corfforaethol a Map Gwres Risgiau, Tachwedd 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b></p>	



	<p>Amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio waith y Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r gofrestr risgiau, gan nodi na fu unrhyw newidiadau i'r proffil risgiau na'r sgorau ers y cyfarfod blaenorol.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.42</b>	<b>CCAUC a chylchlythyrau eraill</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar yr adroddiadau monitro Cronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch a'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r trefniadau adolygu ansawdd yn allanol.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.43</b>	<b>Sêl y Brifysgol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar osod Sêl y Brifysgol ar y Weithred Ddiwygio ac Ailddatgan ar gyfer yr estyniad 12 mis i'r benthyciad AIB.</p> <p><b>Penderfynwyd</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.44</b>	<b>Pwyllgorau'r Bwrdd</b>	
	<b>21.44.01 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021. (ii) Adroddiad atebolwydd blynyddol dyletswydd atal radicaleiddio ('Prevent') 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cynigiwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol diogelwch, iechyd a'r amgylchedd a byddai'r rhain yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo maes o law.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021.  NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau 21 Hydref wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.  NODI'R adroddiad atebolwydd blynyddol dyletswydd atal radicaleiddio i'w gyflwyno i CCAUC.</p>	
	<b>21.44.02 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2021. (ii) Diweddariadau arfaethedig i'r cynllun gweithredu Adolygiad Camm. (iii) Adroddiad cynnydd yr Adolygiad Effeithiolrwydd.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at yr ymateb i'r ddwy weithred olaf a fyddai'n gweld elfennau'r cynllun gweithredu Adolygiad Camm a oedd dan reolaeth y Bwrdd</p>	

	<p>yn cael eu cwblhau. Roedd y camau gweithredu a oedd yn weddill yn dibynnu ar waith cyrff eraill a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ei ystyried maes o law.</p> <p>Nododd yr aelodau'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r Adolygiad Effeithiolrwydd a CHYTUNWYD y byddai crynodeb y canlyniadau o arolwg yr adolygiad yn cael eu dosbarthu i'r aelodau, er gwybodaeth.</p> <p><i>[Nodyn yr ysgrifennydd: dosbarthwyd canlyniadau'r arolwg ar 7 Rhagfyr]</i></p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2021.</p> <p>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 11 Tachwedd wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.</p> <p>CYMERADWYO'R diweddariadau i gynllun gweithredu Adolygiad Camm.</p> <p>NODI'R diweddariad ynghylch Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd.</p>	
<p><b>21.44.03 Y Pwyllgor Archwilio</b></p>		
	<p><b>Derbyniwyd</b> (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021. (ii) Adroddiad Monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad Tachwedd 2021.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021.</p> <p>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 12 Tachwedd wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI'R Adroddiad Cynllun Ffioedd a Mynediad a chynghor y Pwllgor ynghylch Datganiadau Sicrwydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad CCAUC a CHYMERADWYO cadarnhau'r datganiadau i CCAUC.</p> <p>CYMERADWYO penodi KMPG fel archwilwyr allanol y Brifysgol ar gyfer 2021/22.</p> <p>CYMERADWYO penodi RSM fel archwilwyr mewnol y Brifysgol ar gyfer 2021/22.</p>	
<p><b>21.44.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid</b></p>		
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021. (ii) Mân ddiweddariad arfaethedig i Gylch Gwaith y Pwyllgor o ran y Pwyllgor yn cadw trosolwg ar berfformiad ariannol yr is-gwmnïau. (iii) Strategaeth Ariannol 2018 – 2025.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021.</p> <p>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau 12 Tachwedd wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.</p> <p>CYMERADWYO'R mân ddiwygiad i gylch gwaith y Pwyllgor.</p> <p>CYMERADWYO'R Strategaeth Ariannol wedi'i diweddarau.</p>	

	<b>21.44.05 Yr Is-gwmnïau</b>	
	<b>Derbyniwyd:</b> Cofnodion: (i) Cyfarfod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a'r Cyfarfod Cyffredinol Ariannol ar 28 Hydref 2021. (ii) Cyfarfod Glyndwr Innovations Ltd a'r Cyfarfod Blynyddol ar 21 Hydref 2021. (iii) Cyfarfod Blynyddol Glyndwr Services Ltd ar 2 Tachwedd 2021.  <b>Penderfynwyd:</b> NODI'R cofnodion a'r adroddiadau.	

Diwedd